SIR GAERFYRDDIN


# Nodiadau Natur

Partneriaeth Natur
SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE
Nature Partnership

## GORFFENNHAF-MEDI 2025

Mae gan Sir Gaerfyrddin gyfoeth o fywyd gwyllt. Mae'r 'Nodiadau Natur' hyn yn nodi rhai o'r uchafbwyntiau er mwyn ein hannog ni i gyd i fwrw golwg fanylach o'n hamgylch ni – mae hyd yn oed y pethau mwyaf cyffredin yn arbennig. Ydych chi wedi gweld rhywbeth diddorol? Beth am anfon llun atom?





I gael rhagor o wybodaeth am natur yn y sir, darllenwch ein Cynllun Adfer Natur:
sirgar.llyw.cymru/bioamrywiaeth

Anfonwch eich lluniau at: Biodiversity@sirgar.gov.uk



## Blodau Endif

Gall ymagwedd 'hamddenol' at arddio dalu ar ei ganfed ac mae bob amser yn werth edrych yn fanylach pan fyddwch allan yn mwynhau'ch gardd. Yma mae letys Endif (*Cichorium endivia*), sy'n cynhyrchu dail salad i ddechrau, ond sydd wedyn yn tyfu coes hir gyda blodau glas. Mae'n perthyn i Sicori acmae gwahanol rywogaethau o wenyn yn ymweld â'r blodau, gan gynnwys gwenyn mêl, gwenyn torri dail, a gwenyn sy'n nythu ar y ddaear, ynghyd â phryfed eraill fel clêr a chwilod. Mae'r pryfed peillio hyn yn cael eu denu at y blodau, a'u paill.



## Dail sy'n pydru

Yn sgil y tymheredd eithafol dros yr haf, daeth yr hydref yn gynnar i rai planhigion. Mae'r celloedd planhigion yma mewn gwahanol gyflwr pydredd - proses hollol naturiol. Daw lliw gwyrdd y dail yn bennaf o gloroffyl, pigment sy'n gyfrifol am ffotosynthesis. Mae pigmentau eraill yn cynnwys carotenoidau sy'n cynhyrchu lliwiau melyn, oren a brown a thaninau sy'n cyfrannu at liw brown dail sy'n heneiddio. Mae lliwiau dail yn newid pan fydd lefelau neu welededd y pigmentau hyn yn newid oherwydd ffactorau mewnol neu allanol. Mae'n bosibl bod y cyfnodau cynnes, sych yr haf hwn wedi cyfrannu at hyn yma.



## Pryfed cnawd

Ymwelydd gardd nodedig yw clêr o'r teulu pryfed cnawd. Mae gan y clêr aeddfed lygaid coch llachar ac adenydd tryloyw. Yn anarferol nid ydynt yn dodwy wyau ond yn rhoi genedigaeth i rai byw (cynrhon) - yn aml ar anifeiliaid marw lle gallant fwydo ar unwaith. Serch hynny, mae eu henw yn dwyllodrus - dim ond ychydig o rywogaethau sy'n bwydo ar feinwe byw. Mae tail, parasiteiddio infertebratau eraill neu fwydo ar gyrff sy'n pydru yn opsiynau eraill – hyfryd – ond sy'n bwysig yng ngweithrediad ein systemau naturiol.



## Clych yr eos

Mae blodau cain clych yr eos (*Campanula rotundifolia*) yn bleser diwedd yr haf. Yn fwy gwydn nag y gallent ymddangos, maen nhw'n tyfu mewn lleoedd sych, o lethrau noeth bryniau i'r arfordir gwyntog. Mae cacwn a gwenyn mêl yn ymweld â nhw'n rheolaidd, gan ddarparu ffynhonnell hydrefol o neithdar i'r pryfed hyn.
Yn yr Alban defnyddiwyd y blodyn glas hwn yn y gorffennol ar gyfer lliwio tartan a dyma flodyn arwyddlun Sweden, lle cynhaliwyd pleidlais ledled y wlad i ddewis y blodyn cenedlaethol. Ydych chi'n gwybod beth yw blodyn sirol Sir Gaerfyrddin?



## Tafod Bustach

Gellid dweud bod y Tafod Bustach anaeddfed hwn (*Fistulina hepatica*) yn edrych ychydig fel tafod.  Mae'r enw *Fistulina* yn golygu 'gyda phibellau bach neu diwbiau'. Fodd bynnag, yma mae pob tiwb wedi'i wahanu yn hytrach na'i rannu â thiwbiau cyfagos. Mae'r enw penodol *hepatica* yn cyfeirio at ymddangosiad Tafod Bustach aeddfed sy'n debyg i afu.
Mae tafod bustach yn gyffredin yn y DU. Fe'i welir fel arfer mewn coetir llydandail, yn isel ar foncyffion coed derw ac weithiau ar foncyffion derw sydd wedi'u torri'n ddiweddar.





## Malwod Disg

Yn gyffredin ledled Prydain, mae'r Malwod Disg (*Discus rotundatus*) yn fach (5-7 mm) gyda chragen goch-frown sy'n fflat, gyda thorchau tynn, rhesog. Maen nhw'n byw mewn pridd a gwastraff dail, gan fwydo ar falurion planhigion, hwmws, algâu a ffyngau.
Mae'r malwod hyn, fel y rhan fwyaf o gastropodau daearol (gwlithod a malwod), yn ddeuryw (yn meddu ar organau atgenhedlu gwrywaidd a benywaidd) a gallan nhw fyw am 2-3 blynedd. Gall rhai gastropodau hunan-ffrwythloni neu atgenhedlu'n anrhywiol ond y dull mwyaf cyffredin yw paru cilyddol rhwng dau unigolyn hermaphroditig, h.y. y ddau yn dodwy wyau.

## Gwrachen Gron

Mae gan y wrachen gron (*Armadillidium vulgare*), sydd eisoes wedi'i gorchuddio ag 'arfwisg' o gragen, dacteg amddiffynnol arall - cyrlio i fyny mewn pêl dynn pan ymosodir arni.
Mae gwrachod lludw neu foch coed mewn gwirionedd yn gramenogion, nid pryfed, felly maen nhw'n perthyn yn agosach i grancod a berdys.
Maen nhw'n byw mewn amrywiaeth o gynefinoedd ac yn dod mas yn y nos i fwydo ar ddeunydd marw a phwdr ac maen nhw'n ailgylchwyr maetholion pwysig. Nid ydyn nhw'n fwytawyr anodd eu plesio ond mae angen amodau llaith arnynt i oroesi ac amsugno lleithder o'r aer.
Yn y gaeaf, yn ystod tymheredd isel iawn, gallan nhw fynd i gysgu, i oroesi tymheredd a fyddai fel arall yn eu lladd.



## Chwydden Goronog

Gall gwenynen y derw (*Andricus quercuscalicis*) wneud ei marc. Mae'n cynhyrchu allwthiadau (chwyddau) siâp powlen o fes. Maen nhw'n ffurfio ym mis Awst ac maen nhw'n ludiog ac yn goch, ac yn ddiweddarach troi'n goediog ac yn frown.

Fel y rhan fwyaf o wenyn y derw, mae ei chylch bywyd yn gymhleth, gyda chyfnodau o genhedlu rywiol ac anrhywiol bob blwyddyn.



## Mantell Goch

Mae gan y Fantell Goch (*Vanessa Atalanta*) fywyd byr yn ei llawn dwf. Mae'n hysbys eu bod yn mudo i'r DU o hinsoddau cynhesach yn y gwanwyn. Mae'r brif genhedlaeth aeddfed yn dod i'r amlwg ddiwedd yr haf a dechrau'r hydref, pan fyddan nhw'n cael eu gweld yn fwyaf cyffredin. Mae rhai Mentyll Coch yn aros ac yn gaeafu trwy aeafgysgu. Mae'r rhai aeddfed i'w gweld yn gyffredin yn bwydo ar flodau fel llwyni cynffon glas, tra bod y danadl yn eich gardd yn brif blanhigyn bwyd y lindysyn.




## Brithribinau Brown

Mae'r ffotograff hwn yn dystiolaeth o stori lwyddiant cadwraeth go iawn. Mae Gwarchod Glöynnod Byw wedi bod yn gweithio gydag Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru i reoli a gwella cynefinoedd draenen ddu addas ar gyfer dodwy wyau'rglöyn byw Brithribin Brown (*Thecla betulae*) ar hyd yr A40 yn Llandeilo. Dyma ganlyniad y gwaith caled a wnaed yma. Gwelir glöyn byw aeddfed yn eistedd ar un o'r pyst sy'n cynnal egin-goeden draenen ddu. Nawr, trwy beidio â ffustio'r holl gynefin yn rheolaidd, dylai ddarparu hyd yn oed mwy o gynefin dodwy wyau.



## Glaswelltir wedi'i led-wella

Dyma enghraifft o dir pori lle cymerir silwair sydd â rhywfaint o amrywiaeth o blanhigion a gweiriau blodeuol o hyd. Yn ogystal â bod yn dir fferm cynhyrchiol, mae ganddo werth i fywyd gwyllt hefyd, gan gefnogi amrywiaeth o beillwyr ac infertebratau eraill.

Gyda rheolaeth briodol, gellir gwella glaswelltiroedd wedi'u lled-wella i ddod yn fwy cyfoethog o rywogaethau, gyda strwythur pridd da sy'n helpu i storio carbon ac amsugno dŵr.




## Y morfil asgellog llwyd

Ddechrau mis Medi, golchwyd morfil mawr i'r lan ar Gefn Sidan. Dangosodd archwiliad agosach mai corff morfil asgellog llwyd mawr (*Balaenoptera physalus)* ydoedd. Roedd yn mesur tua 20-22m o hyd ac yn pwyso cymaint â 30 tunnell.

Adroddwyd y canfyddiad i'r Cetacean Strandings Investigation Programme. Maen nhw'n mynd i achosion o'r fath yn rheolaidd i gynnal archwiliadau post-mortem a phennu a ddigwyddodd y marwolaethau'n naturiol nau a oeddent yn gysylltiedig â gweithgarwch dynol - gan gynnwys gwastraff plastig, cael eu bwrw â llongau, neu fynd yn sownd mewn offer pysgota.

Y morfil asgellog llwyd yw'r ail famal mwyaf ar y Ddaear ac mae mewn perygl o ddiflannu yn ôl yr IUCN.

## Aeron yr hydref

Dyma ddigonedd o ffrwythau'r hydref.  Er, gyda'r lluniau a dynnwyd ym mis *Gorffennaf*, gellid dweud eu bod ychydig yn rhy gynnar.

Mewn sawl rhan o'r DU mae mieri wedi bod yn aeddfedu ers canol yr haf ac roedd afalau ac mes, eirin tagu ac eirin ysgaw i gyd yn aeddfedu yn gynnar eleni. Os yw'r ffrwythau hyn yn aeddfedu'n rhy gynnar, gallai arwain at fwlch bwyd yn yr hydref i fywyd gwyllt.

Mae llawer o adar, fel adar duon, yn dibynnu ar y ffrwythau a'r aeron hyn yn yr hydref ar ôl bwyta pryfed yn y gwanwyn a'r haf. Gallwn ni i gyd helpu â hyn. Peidiwch â bod yn rhy daclus! Gadewch rai pennau hadau, pentyrrau dail, a glaswellt hir i ddarparu cysgod a bwyd i bryfed ac adar trwy'r hydref a'r gaeaf.

amphibian and reptile conservation

Butterfly Conservation Wales
Gwarchod Glöynnod Byw Cymru

Botanical Society of the British Isles

buglife

Bumblebee Conservation Trust
Ymddiriedolaeth Cadwraeth Cacwn

The carbon community

Clwb Adar Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire Bird Club

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Carmarthenshire Meadows Group
Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin

CoedLleol SmallWoods

Dŵr Cymru Welsh Water

Floodplain Meadows Partnership

Menter ar Gyfer Cadwraeth Natur Cymru
Initiative for Nature Conservation Cymru

LLANELLI NATURALISTS
NATURIAETHWYR LLANELLI

Mid Wales Red Squirrel Partnership
Canolbarth Cymru Partneriaeth Gwiwerod Coch

National Botanic Garden of Wales
Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Ymddiriedolaeth Genedlaethol
National Trust

Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur
Nature Friendly Farming Network

PROJECT SEAGRASS

Plantlife

RSPB

Asiant Cefnffyrdd De Cymru
South Wales Trunk Road Agent

WWBIC
WEST WALES BIODIVERSITY INFORMATION CENTRE
CANOLFAN WYBODAETH BIOAMRYWIAETH GORLLEWIN CYMRU

WEST WALES RIVERS TRUST
YMDDIRIEDOLAETH AFONYDD GORLLEWIN CYMRU

WWT

Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru
Wildlife Trust of South & West Wales

COED CADW WOODLAND TRUST

VWT Vincent Wildlife Trust



## Partneriaeth Sir Gaerfyrddin